



Urdd



YMAELOWD WCH NAWR!
Bathodyn aelodaeth newydd!
- manylion y tu mewn! -

bore da bach



Lliwio!

GWEITHGAREDDAU

**HWRE!
MAE'N FIS
HYDREF!**

COMICS CŴL!

**Cai Clustiau
Seren a Sbarc**

I ddysgwyr Cymraeg a disgyblion
Cymraeg ail iaith Cyfnod Allweddol 2

urdd.cymru/boreda



CYMRAG

Siarter
laith

CROESO

Helo ffrindiau!


Mae hi'n fis Hydref. Ac amser am Bore Da Bach! Bydd Bore Da Bach yn dod allan bo yn ail fis – Bore Da arferol ym misoedd Medi, Tachwedd, Ionawr, Mawrth a Mai ac yna rhifyn bach bob yn ail fis. Rydw i'n hoffi mis Hydref. Dail brown ac oren ar y coed a... Calan Gaeaf! Waaaaaaa!

Cofia ddweud wrth bawb o dy ffrindiau i danysgrifio i gael Bore Da a Bore Da Bach – AM DDIM!! Ac yn syth i dy e-bost!

Pam na wnei di a dy ffrindiau neu ddosbarth anfon llythyr ata i? Anfonwch at boreda@urdd.org. Dw i'n caru clywed gan blant bach Cymru

Hwyl am y tro!

Mistar Urdd



Hawlfraint Urdd Gobaith Cymru yw'r holl gylchgrawn oni nodir yn wahanol.
Paratowyd gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru
Golygydd: Branwen Rhys Dafydd Dylunydd: Meilyr Gwynn
Cysyllta â ni: boreda@urdd.org neu beth am ymweld â gwefan urdd.cymru/boreda



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Eisiau gwella eich Cymraeg?

Mae ein tiwtoriaid cyfeillgar yn barod i'ch helpu chi i ddysgu a mwynhau'r iaith.

Enjoy learning something new?

Our friendly Welsh tutors are there to help you learn and to make sure you have fun doing it.





Amser Lliwio!

Dyma ddwy
weithgaredd lliwgar
i ti wneud ar themâu
y tymor: Yr Hydref,
a Chalan Gaeaf!
Mwynha!



COPIA'R LLUN! - Gwna gopi o'r
llun ar y chwith yn y grid ar y dde.

TIP! Copia un bocs ar y tro, gan edrych yn ofalus ar ble
mae'r llinellau yn dechrau a gorffen ym mhob sgwar.





Cogurdd!

Bisgedi Bl-aaaaaaaaa-sus Calan Gaeaf!

Galli dorri'r toes allan i siapiau gwahanol dy hun neu ddefnyddio torrwr - mae digon o rai arbennig ar werth ar gyfer Calan Gaeaf!



Cynhwysion!

- 100g menynd meddal
- 100g siwgr caster
- 1 wy
- 275g blawd plaen
- 1 llond llwy de o flas fanila neu flas oren
- I addurno'n ddychrynlyd**
- 400g siwgr eisin
- 3-4 llond llwy fwrdd o ddŵr
- 2-3 diferyn o liw bwyd - oren ar gyfer pwmpen, du ar gyfer gwrachod ac yn y blaen.

Y Broses...

- Cynhesa'r popty i 190C/375F/Nwy 5.
- Rho bapur 'greaseproof' ar waelod tun popty.
- Cymysga'r wy a'r siwgr yn dda mewn powlen.
- Ychwanega'r wy a'r blas fanila neu oren.
- Ychwanega'r blawd bob yn llwyaid nes ei fod fel toes.
- Rho haenen o flawd ar y bwrdd a gan ddefnyddio rholbren rholia nes ei fod tua 1 centimetr o drwch.
- Gan ddefnyddio torrwr Calan Gaeaf neu ddefnyddio dy ddychymyg, torra'r
- bisgedi yn siapiau.
- Rhaid pobi yn y popty am 8-10 munud. Gofal wrth ddefnyddio gwres!
- Cymra allan a gadael i oeri.
- I wneud yr eisin, rho'r siwgr eisin trwy ridyll a chymysgu gyda dŵr mewn powlen. Pan mae'n llyfn rhanna i fowlenni ar gyfer y lliwiau gwahanol. Wedi cymysgu'r lliwiau i mewn ac wedi i'r bisgedi oeri, gorchuddia nhw gyda'r eisin, i greu bisgedi dychrynlyd!
- Bwyta nhw!

LLYFR Y MIS!

Cyfras Lego: Llyfr Geiriau Prysur
Addasiad Sian Lewis
Cyhoeddwr: Rily
Pris: £9.99

Pwy sydd am ddysgu geiriau newydd? Dewch i Ddinas LEGO! Mae'n hwyll! Dysgwch am bobl brysur, cerbydau o bob math ac adeiladau diddorol. Yn cynnwys 26 golygfa gyffrous o Ddinas LEGO a thros 500 o eiriau wedi'u labelu'n eglur.



Geirfa

Calan Gaeaf - Halloween
Galli - You can
toes - dough
torrwr - cutter
digon - plenty
ar werth - on sale
cynhwysion - ingredients
meddal - soft
wy - egg
plaen - plain
blas - flavour
fanila - vanilla
addurno - to decorate
dychrynlyd - frightening

eisin - icing
llwy fwrdd - tablespoon
diferyn - drop
lliw - colour
pwmpen - pumpkin
gwrachod - witches
Cynhesa - Heat
Cymysga - Mix
Ychwanega - Add
Rho - Put
haenen - layer
rholbren - rolling pin
dy ddychymyg - your imagination
Cymra allan - Take out
rhidyll - sieve
llyfn - smooth

Jan
Huw
Aaron



Gweithlen 1

Yr Ysgol

Mae rhestr o eiriau ar y bwrdd du. Beth ydyn nhw?
Maen nhw i gyd ar y ddesg.



af■l

r■be■

pen■e■

pê■


■ini■r

■wrs

Bo■ D■

lly■




■ren me■u■



Gweithlen 2

Pryd mae...?

Rho linell i'r llun cywir bob tro



1 Pryd mae hi'n amser mynd i'r ysgol?
Mae hi'n amser mynd i'r ysgol bore ma!

2 Nawr mae hi'n amser gwasanaeth.

3 Ar ôl gwasanaeth mae hi'n amser ysgrifennu.


6 Hwrê! Mae hi'n amser cinio!

5 Ar ôl amser chwarae mae hi'n amser darllen.

7 Hwrê! Ar ôl amser cinio mae hi'n amser nofio!

4 Wedyn mae hi'n amser chwarae.

8 A diwedd y prynhawn mae hi'n amser mynd adref yn y bws!




Geirfa

adref: home
amser chwarae: play time
ar ôl: after

cywir: correct
darllen: to read
diwedd: end
gwasanaeth: service

llinell: line
pryd: when
prynhawn: afternoon
ysgrifennu: writing





Geirfa

- amser heb ei ail - a lovely time
- balch - glad
- clyd - cosy
- coed collddail - deciduous trees
- collen - hazel tree
- derwen - oak tree
- g/aeaf gysgu - hibernate
- gwyntog - windy
- hadau sycamorwydden - sycamore seeds
- hofrenyddion - helicopters
- hydref - autumn
- mesen - acorn
- prynhawn - afternoon